Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cynwyl Elfed
# Stryd Y Meddyg
# Cynwyl Elfed
# Caerfyrddin
# Sir Gaerfyrddin
# SA33 6TR

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Ysgol Gynradd Cynwyl Elfed

Lleolir Ysgol Gynradd Cynwyl Elfed ar gyrion y pentref sydd ychydig filltiroedd o dref Caerfyrddin yn awdurdod lleol Caerfyrddin. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae Ysgol Cynwyl Elfed yn un o dair ysgol sy'n gweithredu o fewn ffederasiwn ffurfiol. Mae'r ysgol wedi bod mewn ffederasiwn ffurfiol gydag Ysgol Llanpumsaint ers nifer o flynyddoedd ac yn ddiweddar iawn mae Ysgol Abernant wedi ymuno â nhw yn ffurfiol yn dilyn cyfnod fel aelod anffurfiol o'r ffederasiwn hwnnw.

Mae 65 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Tua 43% o'r rhain sy'n siarad Cymraeg gartref. Tros dreigl tair blynedd, ychydig o dan 10% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r canran cenedlaethol, sy'n 19%. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 32% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn uwch na'r canran cenedlaethol sy'n 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ionawr 2015 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Fel pennaeth ar dair ysgol mewn ffederasiwn lleol, mae ei weledigaeth wedi ei seilio ar yr egwyddor sy'n sicrhau bod disgyblion yn parhau i dderbyn addysg gynhwysol o fewn eu cymunedau. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar y Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i gadw'n iach ac o bwysigrwydd datblygu'n dinasyddion moesol a gwybodus, sydd â'r medrau i gyfrannu'n weithgar at fywyd yn eu cymuned leol. Mae'r oedolion yn fodelau iaith effeithiol ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu eu medrau llafar yn ddyddiol. Mae cymuned yr ysgol yn un ofalgar sy'n hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi a pharch. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol, yn teimlo'n ddiogel yno ac yn dangos parch at ei gilydd, staff ac ymwelwyr.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, yn arbennig o safbwynt eu medrau llafar, sy'n datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf yn darllen i lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu ac yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau mathemategol, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Fodd bynnag, nid oes gan bob aelod staff ddisgwyliadau sy'n ddigon uchel i sicrhau bod pob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol yn gweithredu hyd eithaf eu gallu. O ganlyniad, ychydig, gan gynnwys y disgyblion sy'n fwy abl, sy'n cyflawni'n dda a chyson ym mhob maes dysgu.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arweinwyr yn canolbwyntio ar y gweithdrefnau ymarferol fydd yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar addysgu a safonau

A2 Sicrhau bod gan yr holl athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion

A3 Sicrhau bod y trefniadau cynllunio athrawon cyfnod allweddol 2 yn ddigon manwl i ddiwallu anghenion pob grŵp o ddisgyblion a'u bod yn eu gweithredu'n effeithiol

A4 Gwella medrau ysgrifennu disgyblion yn y ddwy iaith lle'n briodol

A5 Gwella'r ddarpariaeth i alluogi disgyblion i ddefnyddio'u medrau rhifedd ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, ond ychydig sy'n gwneud cynnydd da. Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n fwy abl sy'n cyflawni hyd eithaf eu gallu yn gyson. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau ac yn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm.

Mae medrau llafar Cymraeg disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda ac erbyn diwedd Blwyddyn 2 mae'r rhan fwyaf yn defnyddio iaith goeth a naturiol wrth sgwrsio gydag oedolion a chyda'u cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf yn darllen i lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae'r disgyblion iau yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn frwdfrydig i straeon traddodiadol, fel stori Sinderela. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar frig y cyfnod yn darllen testunau syml yn ddeallus ac yn hoff iawn o drafod straeon sy'n gyfarwydd iddynt. Mae llawer yn dechrau mynegi barn am eu hoff gymeriadau ac yn rhoi rhesymau am eu dewis mewn modd syml. Mae'r rhan fwyaf yn talu sylw da i atalnodi er mwyn llywio'u darllen ar goedd. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu addas. Mae'r mwyafrif yn ysgrifennu cyfres o frawddegau syml i wahanol bwrpasau yn briodol. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys creu pamffled wybodaeth am y planedau, disgrifio dathliadau'r Iddewon ac adroddiad i gyflwyno rhagolygon y tywydd. Fodd bynnag, y lleiafrif sy'n ffurfio llythrennau yn gywir ac ychydig sy'n defnyddio prif lythyren ac atalnod llawn yn gyson.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau cyfathrebu'r disgyblion yn datblygu'n gadarnhaol yn y ddwy iaith. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn defnyddio iaith bynciol yn ddeallus a chywir. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn ddarllenwyr hyderus ac yn mwynhau gwneud hynny ar goedd. Mae llawer yn trafod llyfrau yn synhwyrol gan gyfeirio at brif gymeriadau a digwyddiadau ac yn datgan barn yn aeddfed. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio eu medrau darllen yn bwrpasol yn eu gwaith i gywain gwybodaeth am afonydd Cymru yn eu gwersi daearyddiaeth, er enghraifft. Digonol yn unig yw'r cynnydd ym medrau ysgrifennu rhan fwyaf y disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu i bwrpasau gwahanol, gan ddefnyddio ffurfiau cywir. Er enghraifft, maent wedi ysgrifennu erthygl papur newydd am adeiladu tai newydd yn y pentref, poster perswâd i sefydlu clwb pobl ifanc a dyddiadur gofodwr. Fodd bynnag, lleiafrif sy'n cyflwyno eu gwaith yn ddigon taclus gan ddefnyddio llawysgrifen ddealladwy. Tua hanner sy'n sillafu geiriau o fewn eu profiad yn gyson gywir ac ychydig sy'n ysgrifennu'n feddylgar a datblygu eu syniadau yn ddiddorol.

Mae medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n briodol. Maent yn caffael dealltwriaeth gynyddol o rif, siâp a mesur, ac yn eu cymhwyso'n addas mewn ychydig o wahanol sefyllfaoedd. Er enghraifft, mae ychydig o ddisgyblion y cyfnod sylfaen wedi creu papur lapio gan osod siapiau mewn trefn benodol. Mae ychydig o'r disgyblion iau yn defnyddio mesuriadau ansafonol sylfaenol i greu cacen i Sinderela yn y gegin fwd tra bod disgyblion Blwyddyn 2 yn gosod brigau mewn trefn yn ôl hyd a dewis yr un sydd agosaf i'w taldra yn hyderus.

Mae disgyblion hŷn cyfnod allweddol 2 yn cymhwyso'u medrau rhifedd mewn nifer cyfyng o feysydd, fel gwyddoniaeth. Maent wedi creu tabl o ganlyniad ymchwiliad yn seiliedig ar sut mae pwysau pêl yn effeithio ar ddiamedr ceudwll mewn tywod. Roedd y dasg hon yn gyfle da iddynt gyfrifo cyfanswm a chymedr a chofnodi eu darganfyddiadau ar ffurf graff. Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau llwyddiannus lle mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn hyderus ar draws pynciau eraill y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus ac yn gwneud defnydd pwrpasol o'u medrau cyfrifiadurol. Ar waelod y cyfnod mae'r rhan fwyaf yn rheoli tegan electronig syml a defnyddio rhaglen tynnu llun yn effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen mae'r rhan fwyaf yn gwneud defnydd effeithiol o godau 'QR ' i gael mynediad i wybodaeth a rhaglen ddata syml i greu graffiau.

Yng nghyfnod allweddol 2 mae disgyblion yn defnyddio amrywiaeth o raglenni cyfrifiadurol yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio rhaglen prosesu geiriau yn llwyddiannus ac i bwrpas addas. Er enghraifft, maent wedi ysgrifennu adroddiad ar drip i Gastell Caerdydd, a chreu cyflwyniadau electronig effeithiol ar thema sy'n seiliedig ar fywyd yn yr Ugeinfed Ganrif. Fodd bynnag, cyfyng yw'r enghreifftiau lle mae disgyblion hŷn yn cymhwyso'u medrau trin data ac yn defnyddio taenlenni mewn cyd-destunau eang ar draws y cwricwlwm.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn hapus i siarad ag unrhyw aelod o staff os ydynt yn bryderus ac yn gwbl hyderus y byddant yn ymateb y syth i unrhyw ofid sydd ganddynt. Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth addas o sut i gadw'n ddiogel, ac yn benodol wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn egluro pwysigrwydd cadw manylion cyswllt yn gyfrinachol, er enghraifft. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi mewnbwn swyddog addysg yr heddlu sy'n ychwanegu'n llwyddiannus at eu dealltwriaeth o ddiogelwch.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i gadw'n iach. Maent yn gwneud dewisiadau doeth o ran bwyd a diod ac yn deall pwysigrwydd cadw'n heini a chymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol, fel rhedeg milltir bob dydd. Mae'r llysgenhadon efydd yn cynllunio gemau diddorol ar gyfer eu cyfoedion iau yn ystod amser egwyl a chinio. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu eu medrau corfforol ymhellach. Lleiafrif o'r disgyblion, fodd bynnag, sy'n cymryd rhan yn rheolaidd yn y clybiau allgyrsiol sydd ar gael iddynt, fel clybiau chwaraeon, dawnsio gwerin a stepio, er enghraifft.

Mae aelodau'r cyngor ysgol ac eco yn weithgar ac yn cefnogi agweddau lles y disgyblion eraill yn gydwybodol. Er enghraifft, maent yn cydweithio gydag aelodau'r gymdeithas rhieni i ddarparu offer chwarae, seddi a chysgod rhag yr haul i wella'r ardal chwarae. Fodd bynnag, nid yw eu rôl wrth arwain eu gweithgareddau a gwneud penderfyniadau am eu dysgu hyd yma wedi datblygu'n llawn.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesol a gwybodus, yn benodol trwy gyfrannu'n weithgar at fywyd y pentref a'r gymuned ehangach. Maent

yn datblygu eu dealltwriaeth o'u diwylliant a'u hardal leol ymhellach trwy astudio'r thema 'Fy Milltir Sgwâr'. Er enghraifft, mae gwaith celf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn seiliedig ar Y Gangell, cartref Elfed, y bardd enwog o'r ardal. Mae'r disgyblion yn croesawu aelodau'r gymuned i rannu nifer o'u gweithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys te prynhawn a noson cawl a chân. Maent hefyd yn rhannu cynnyrch â'r henoed lleol yn dilyn y gwasanaeth diolchgarwch. Mae hyn yn codi eu hymwybyddiaeth o bwysigrwydd bod yn garedig i'w cymdogion ynghyd â manteision byw mewn cymuned glos. Mae disgyblion yn cefnogi nifer o elusennau lleol a chenedlaethol sy'n cyfrannu ychydig at eu dealltwriaeth o'r byd ehangach. Fodd bynnag, cyfyng yw eu gwybodaeth am fywyd pobl mewn gwledydd eraill. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu Cymreictod yn llwyddiannus drwy ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus o fewn a thu allan i'r dosbarth. Mae llawer o'r disgyblion yn datblygu eu hyder trwy berfformio ar lwyfannau lleol neu genedlaethol, lle mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus ym myd dawnsio gwerin yn benodol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn trin ymwelwyr yn gwrtais a chyda pharch. Mae ymddygiad y rhan fwyaf yn dda yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Mae gan y rhan fwyaf agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn barod i ddysgu yn brydlon ar gychwyn gwersi ac yn symud yn hwylus rhwng gweithgareddau o fewn y dosbarth ac yn yr ardal allanol. Fodd bynnag, ar adegau, mae ychydig o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cymryd gormod o amser i ymdawelu ar gychwyn gwersi ac nid ydynt bob amser yn canolbwyntio wrth weithio ar eu tasgau. O ganlyniad, ychydig o'r disgyblion hŷn sy'n gwneud y cynnydd gorau posib.

Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn cyfrannu yn frwdfrydig at yr hyn y maent yn dymuno ei ddysgu o fewn themâu penodol, ond nid yw cyfraniad y disgyblion hŷn yr un mor amlwg nac effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn barod i awgrymu gwahanol ffyrdd o ddatrys problemau. Er enghraifft, maent yn trafod yn hyderus y ffordd orau i wneud coron i Sinderela yn ardal y goedwig. Fodd bynnag, ychydig iawn o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n arddangos y medrau hyn yn gynyddol neu yn naturiol o fewn eu gwaith.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar addysgu'r disgyblion am ddiwylliant Cymru ac mae'r Gymraeg a Chymreictod yn ganolog i'w holl fywyd a gwaith. Mae'r staff yn fodelau iaith effeithiol ac maent yn darparu cyfleoedd da i'r disgyblion ddatblygu eu medrau llafar. Gwneir hyn yn llwyddiannus o fewn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn gyson. Mae'r gweithgareddau allgyrsiol, fel adran yr Urdd a'r clwb clebran yn cyfrannu ymhellach at ddatblygu iaith y disgyblion. O ganlyniad, mae medrau llafar y rhan fwyaf ohonynt yn gadarn dda. Darperir amrywiaeth cyfoethog o gyfleoedd i'r disgyblion ddysgu am ddiwylliant Cymru. Er enghraifft, maent yn cystadlu'n llwyddiannus mewn eisteddfodau ac astudio gwaith beirdd cyfoes fel Aneirin Karadog a Tudur Dylan Jones. Mae'r ymweliadau i'r capel lleol, Amgueddfa Werin Cymru a Big Pit yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y disgyblion am hanes Cymru yn llwyddiannus.

Mae cynlluniau gwaith yr ysgol yn cwrdd â gofynion statudol y cwricwlwm ac egwyddorion y cyfnod sylfaen yn briodol. Cyflwynir y cwricwlwm trwy gyfrwng themâu diddorol sy'n sicrhau bod llawer o'r disgyblion, yn arbennig yn y cyfnod

sylfaen, yn ymroi'n frwdfrydig i'w dysgu. Mae'r athrawon yn hyrwyddo medrau darllen y disgyblion yn dda. Er enghraifft, mae'r trefniadau dosbarth yn cynnig cyfleoedd cyson i'r disgyblion ymarfer eu medrau trwy ddarllen yn unigol a darllen o dan arweiniad yr athrawon. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd addas i'r disgyblion ddatblygu eu medrau TGCh ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r profiadau dysgu bob amser yn talu digon o sylw i wella medrau ysgrifennu'r disgyblion nac yn rhoi digon o gyfleoedd iddynt gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y pynciau eraill.

Yn y cyfnod sylfaen, defnyddir yr ardaloedd dysgu dan do a'r awyr agored i feithrin medrau dysgu annibynnol y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r athrawon a'r gweinyddesau dosbarth yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio profiadau dysgu sy'n adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn addas. Mae'r gweithgareddau ffocws a'r ddarpariaeth barhaus yn cefnogi dysgu'r disgyblion yn effeithiol trwy gynnig profiadau ysgogol a chreadigol iddynt. Er enghraifft, maent yn rhoi cyfleoedd iddynt gynllunio gwisg priodferch, creu cacen a chyfansoddi tôn ar gyfer priodas Sinderela. Mae'r staff yn paratoi adnoddau deniadol a phwrpasol i hyrwyddo chwilfrydedd y disgyblion ac yn eu hannog i ddatblygu'n ddysgwyr hyderus. Er bod y trefniadau dosbarth a'r dulliau addysgu cadarn yma yn gymharol newydd, maent eisoes wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion.

Yng nghyfnod allweddol dau, mae'r athrawon yn dechrau rhoi ffocws penodol ar ddatblygu medrau dysgu annibynnol y disgyblion. Er enghraifft, maent yn rhoi cyfleoedd addas iddynt ystyried yr hyn yr hoffent ei ddysgu o fewn y themâu dosbarth. Mae cynnwys y gwersi unigol yn ddifyr ac yn ennyn diddordeb llawer o'r disgyblion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, mae cyflwyniadau'r gwersi yn rhy hir ac yn peri i ychydig o'r disgyblion golli diddordeb. Mae'r athrawon yn rhannu amcanion y gwersi gyda'r disgyblion yn gyson ac yn gosod meini prawf eglur iddynt. Fodd bynnag, nid yw cynlluniau addysgu'r athrawon bob amser yn rhoi digon o ffocws ar sicrhau bod y disgyblion yn datblygu eu medrau mewn modd adeiladol. O ganlyniad, anghyson yw cynnydd llawer o'r disgyblion wrth iddynt symud ymlaen o flwyddyn i flwyddyn. Gwneir defnydd effeithiol iawn o'r staff cynorthwyol i gefnogi'r dysgwyr. Mae'r gweinyddesau dosbarth yn darparu cefnogaeth gadarn i'r athrawon ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn i wella safonau disgyblion penodol.

Mae llawer o'r athrawon a'r gweinyddesau dosbarth yn defnyddio dulliau holi amrywiol a phriodol, sy'n datlbygu ymhellach ymatebion y disgyblion yn llwyddiannus. Yn yr ychydig ddosbarthiadau, lle mae'r arfer ar ei orau, mae'r holi yn datblygu medrau meddwl y disgyblion yn fedrus. Er hyn, mae disgwyliadau mwyafrif yr athrawon yn rhy isel ac mae anghysondeb yn y modd y mae'r lleiafrif yn rheoli ymddygiad y disgyblion. O ganlyniad, mae ychydig iawn o'r disgyblion yn amharu ar rediad llyfn lleiafrif o'r sesiynau dysgu. Mewn lleiafrif o ddosbarthiadau lle mae rheolaeth dosbarth gwan a diffyg cynllunio systematig, cyfyng yw'r cynnydd mae ychydig sylweddol o'r disgyblion yn ei wneud. Ar y cyfan, mae'r athrawon yn ymateb i waith y disgyblion yn gyson a'u sylwadau cadarnhaol yn canmol eu hymdrechion yn dda. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ddosbarthiadau, nid yw'r adborth bob amser yn ddigon adeiladol nac yn cynnig digon o her i'r disgyblion fynd ati i wella eu gwaith a sicrhau eu bod gwneud y cynnydd gorau posib.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sy'n hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi a pharch yn briodol. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn dangos parch at ei gilydd, staff ac ymwelwyr.

Mae gan yr ysgol drefn effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r pennaeth ac athrawon yn defnyddio'r weithdrefn yn briodol wrth ddadansoddi asesiadau athrawon a deilliannau profion cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon wedi ei gwreiddio'n llawn.

Mae'r athrawon yn defnyddio ystod o ganlyniadau profion yn hyderus i gynllunio a darparu cefnogaeth llythrennedd neu rifedd i unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn briodol. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion addysgol disgyblion yn gynnar ac yn cynllunio cefnogaeth addas iddynt. Mae gan bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol cyfredol. Fodd bynnag, nid yw eu targedau yn ddigon clir, penodol na mesuradwy. Yn ogystal, nid yw'r gweithdrefnau yn galluogi rhieni i gael mewnbwn wrth lunio'r cynlluniau addysg unigol. Mae'r staff ategol yn ymwybodol iawn o dargedau gwella disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn cyfrannu'n werthfawr at eu cynnydd. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd eu targedau. Mae staff yn monitro cynnydd disgyblion sy'n derbyn ymyraethau yn gyson ac yn addasu neu ddileu'r cymorth lle'n briodol.

Mae'r ysgol yn gweithredu'n llwyddiannus gydag asiantaethau allanol i dderbyn cyngor a chefnogaeth ar sut i ymateb yn effeithiol i anghenion ychwanegol disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gweithio'n rheolaidd gyda'r seicolegydd addysg ac athrawes arbenigol nam ar y clyw i gefnogi disgyblion penodol.

Caiff ychydig o ddisgyblion gyfleoedd i ysgwyddo cyfrifoldebau trwy fod yn aelodau o wahanol gynghorau neu grwpiau arwain o fewn yr ysgol. Mae hyn yn ehangu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion gweithgar a chyfrannu'n achlysurol o fewn eu cymuned. Fodd bynnag, nid yw cyfraniad y grwpiau hyn wedi dylanwadu yn ddigonol ar weithdrefnau strategol yr ysgol hyd yma.

Mae'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac mae ganddynt berthynas gadarn ac effeithiol gyda'r mwyafrif ohonynt. Mae'r staff yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau'r ysgol gyda'r rhieni yn rheolaidd trwy gylchlythyron cymunedol. Mae'r rhieni'n gwerthfawrogi cyfleoedd sy'n cael eu darparu ar eu cyfer, ac mae'r rhain yn fodd iddynt ddeall yn well sut i gefnogi eu plant. Enghraifft dda o hyn oedd y noson agored a gynhaliwyd yn ddiweddar i esbonio gwahanol weithdrefnau ac ymyraethau'r ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach ac mae'r disgyblion yn derbyn gwybodaeth werthfawr sy'n hybu eu hymwybyddiaeth am bwysigrwydd iechyd a lles corfforol a meddyliol. Mae enghreifftiau da o hyn yn cynnwys siop ffrwythau'r ysgol, rhedeg milltir y dydd a'r gwersi awyr agored a gynhelir ar brynhawn dydd Gwener. Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol werthfawr gan yr ysgol, sy'n codi ymwybyddiaeth y disgyblion am nifer o agweddau pwysig, gan gynnwys cam-ddefnyddio cyffuriau, herio stereoteipiau, gofal ar y ffordd fawr, a pherygl ysmygu.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol trwy ddarparu cyfleoedd priodol iddynt fyfyrio mewn gwasanaethau a sesiynau torfol eraill.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau celfyddydol a chreadigol disgyblion yn gadarn. Mae hwn yn cynnwys arlunio gan efelychu arddull artist lleol, cystadlu yn eisteddfod yr Urdd a chymryd rhan mewn gwasanaethau’r Nadolig a Phasg yn rheolaidd. Yn ogystal, mae disgyblion yn derbyn cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu dealltwriaeth o’u diwylliant a’u cymuned leol drwy fynd ar ymweliadau priodol. Er enghraifft, maent wedi ymweliad â’r Gangell, man geni Elfed, trip i Wersyll yr Urdd Caerdydd a phrofi traddodiad hynafol Y Fari Lwyd. Fodd bynnag, ychydig o gyfleoedd sy’n bodoli i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o’r byd ehangach.

Mae trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae’r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth synhwyrol ar gyfer yr ysgolion o fewn y ffederasiwn sy’n sicrhau eu bod yn medru parhau i ddarparu addysg gynhwysol i ddisgyblion o fewn eu cymunedau. Mae’r pennaeth ac aelodau’r corff llywodraethol wedi rhannu’r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda’r athrawon, y staff cynorthwyol, y rhieni a’r disgyblion. Mae rhan fwyaf y polisïau a’r dogfennau strategol yn gyffredin ar draws holl ysgolion y ffederasiwn. Mae hyn yn hybu undod a chydweithio ar bob lefel, ac yn fodd i geisio lleihau baich gwaith y staff tra'n sicrhau cysondeb yn y profiadau a ddarperir i ddisgyblion. Mae arweinwyr yn gweithio’n ddyfal i ddatblygu’r ffederasiwn fel canolfan ddysgu effeithiol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel yn gosod disgwyliadau sy’n ddigon uchel ar gyfer yr holl staff na’r disgyblion. O ganlyniad, mae’r ddarpariaeth a’r safonau yn amrywio gormod o fewn ac ar draws yr ysgolion a arolygwyd.

Mae’r disgrifiadau swyddi yn adlewyrchu mwyafrif o gyfrifoldebau’r staff yn deg. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn nodi ychydig gyfrifoldebau allweddol sy’n cael eu gweithredu ac sy’n hanfodol i’r ysgolion redeg yn effeithiol o ddydd i ddydd.

Cynhelir cyfarfodydd staff amrywiol ar y cyd ar draws ysgolion y ffederasiwn ac o fewn yr ysgolion unigol. Mae’r cyfarfodydd hyn yn rhoi ffocws clir ar godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd priodol i staff rannu nodweddion cadarnhaol o’u gwaith gyda’u cydweithwyr o fewn eu hysgol ac ysgolion eraill y ffederasiwn. Maent hefyd wedi dechrau cydweithio ag ysgolion eraill sydd wedi ffederaleiddio i rannu eu harferion. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau yn y rhan fwyaf o’r dosbarthiadau.

Mae’r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn briodol ac yn caniatáu i arweinwyr adnabod anghenion proffesiynol unigolion a darparu cymorth a hyfforddiant penodol iddynt ddatblygu a gwella’u harferion o fewn eu dosbarth. Lle mae athrawon wedi manteisio ar y cyfleoedd hyn, mae’r effaith yn gadarnhaol ar y ddarpariaeth a’r safonau. Fodd bynnag, nid yw ychydig o’r athrawon o fewn y ffederasiwn wedi manteisio’n llawn ar y gefnogaeth a ddarparwyd. O ganlyniad, nid yw llawer o strategaethau addysgu yn ddigon effeithiol mewn ychydig ddosbarthiadau, yn benodol yn un o’r ysgolion.

Mae hyrwyddo’r Gymraeg a’r diwylliant Cymreig yn ganolog i holl waith a bywyd yr ysgolion ac mae arweinwyr yn cynllunio’n lled briodol i ddarparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu’u medrau mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Rhoddwyd blaenoriaeth i ddatblygu medrau llafar Cymraeg y disgyblion yn ddiweddar sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar eu safonau yn y maes hwn.

Mae gan aelodau’r corff llywodraethol ymwybyddiaeth gynyddol o’r hyn sy’n gweithio’n effeithiol yn yr ysgolion ynghyd â nifer o’r materion sydd angen eu gwella. Maent yn cefnogi’r ysgolion yn dda ac yn herio’r pennaeth mewn modd hynaws ond addas pan fo angen. Fodd bynnag, mae’r llywodraethwyr wedi bod yn rhy araf i fynd i’r afael â materion pwysig sy’n ymwneud ag addysgu yn un o’r ysgolion. Mae hyn wedi cael effaith andwyol ar gynnydd a chyrhaeddiad ychydig sylweddol o ddisgyblion.

Mae gan y ffederasiwn weithdrefnau cynhwysfawr ac uniongyrchol i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a safonau. Fodd bynnag, mae’r adroddiadau sy’n deillio o’r rhain yn aml yn rhy gadarnhaol ac nid ydynt bob amser yn adlewyrchu’r sefyllfaoedd yn ddigon cywir. O ganlyniad, nid yw ychydig o athrawon bob amser yn sylweddoli'r graddau sydd angen iddynt wella’u harferion.

Lle mae arweinwyr wedi adnabod meysydd penodol sydd angen eu datblygu, ac wedi cynllunio strategaethau priodol i fynd i’r afael â nhw, mae’r sefyllfa wedi gwella. Mae’r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun datblygu presennol yn cysylltu’n uniongyrchol â deilliannau gweithdrefnau hunanwerthuso’r ysgol. Er hyn, mae ychydig agweddau pwysig lle nad yw’r ysgol wedi eu hadnabod fel agweddau sydd angen eu gwella. Er enghraifft, nid yw wedi adnabod yr angen i ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion na’u defnydd o rifedd ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm.

Ar y cyfan, mae’r ysgolion yn defnyddio’u hadnoddau yn effeithlon. Mae penderfyniadau gwariant a chynllunio ariannol yn cysylltu’n briodol â’r blaenoriaethau strategol a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae lefel y staffio ar y cyfan yn briodol ac mae digon o adnoddau dysgu ar gael ar bob safle i gyflwyno’r cwricwlwm. Mae arweinwyr yn cynllunio gweithgareddau ar y cyd sy’n galluogi disgyblion o’r gwahanol ysgolion o fewn y ffederasiwn ddod ynghyd yn rheolaidd a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol ac addysgiadol. Mae hyn yn ehangu’r cyfleoedd iddynt ac yn eu paratoi’n dda ar gyfer y camau nesaf yn eu haddysg.

Mae’r ysgolion yn gwneud defnydd darbodus a priodol o wahanol grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion a’r grant ysgolion bach gwledig i godi safonau a gwella lles disgyblion. Mae arweinwyr yn gwerthuso effeithiolrwydd y grantiau hyn yn effeithiol yn nhermau cynnydd lle’n briodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/04/2019